**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026**

**Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2, 3, 6, 9 ac 16:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwyntiau adrodd a bydd yn ceisio gwneud y newidiadau drwy slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 4:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r anghysondebau ieithyddol. Ystyrir diwygiadau pan fydd y Rheoliadau yn cael eu diwygio nesaf.

**Pwynt Craffu Technegol 5:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r awgrym o gyfeirio'r darllenydd at ddiffiniadau a ddefnyddir mewn mwy nag un rheoliad, neu eu hailadrodd.

Nid ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol yn achos y diffiniadau rhagweithredol o "hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau" yn rheoliad 4 na "datganiad polisi seilwaith" yn rheoliad 57(3). Mae'r rheoliadau lle ceir y term "hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau" yn rhan o'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau a byddant, felly, yn cael eu darllen gyda'i gilydd. Yn yr un modd, mae'r rheoliadau lle ceir "datganiad polisi seilwaith" yn ymwneud â gwneud penderfyniadau gan awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru a byddant felly yn cael eu darllen gyda'i gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai fod yn fuddiol cyfeirio'r darllenydd at y diffiniad o "cyflwyniadau cloi" (a ddiffinnir yn rheoliad 41(11)) yn rheoliad 42. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw peidio â chyfeirio'r darllenydd yn effeithio ar weithrediad y ddarpariaeth a bod hyn yn annhebygol o arwain at ddryswch yn ymarferol, ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 7:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y bwriedir i "tir comin", "man agored" a "rhandir tanwydd neu ardd gae" yn y diffiniad o "tir categori arbennig" fod â'r un ystyr ag a roddir gan adran 70(9) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024").

Rydym yn derbyn y byddai wedi bod yn gliriach diffinio'r termau hyn â'r un ystyr ag yn adran 70(9) o Ddeddf 2024 yn rheoliad 17(3) o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn annhebygol o achosi dryswch yn ymarferol oherwydd bydd y Rheoliadau yn cael eu darllen yng nghyd-destun Deddf 2024.

Yn hyn o beth, nodwn y cafodd yr un diffiniad o "tir categori arbennig" ei gynnwys yn Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025 heb ddiffinio "tir comin", "man agored" na "rhandir tanwydd neu ardd gae" drwy gyfeirio at Ddeddf 2024.

**Pwynt Craffu Technegol 8:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gall cymysgedd o gysyllteiriau achosi dryswch mewn rhai achosion. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod rheoliad 20(2) yn ddigon clir o'i ddarllen yn ei gyfanrwydd. Mae'n glir bod rheoliad 20(2)(b) ac (c) yn ymdrin â sefyllfaoedd gwahanol ac felly mai'r hyn a fwriedir yw (a) a (b) neu (c).

**Pwynt Craffu Technegol 10:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw ystyr yr ymadrodd a ddefnyddir yn rheoliad 24 yn wahanol i ystyr "awdurdod archwilio" fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) ac mae'n derbyn y byddai wedi bod yn gliriach defnyddio'r term "awdurdod archwilio". Nid ydym yn rhagweld unrhyw ddryswch yn ymarferol ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 11:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod gan y termau yr un ystyr. Ystyriwyd defnyddio "cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais" yn Rhan 4. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn symlach defnyddio'r term "cyfnod ar gyfer sylwadau". Roedd hyn oherwydd nad yw'r gwahaniaeth rhwng cyfnod ar gyfer sylwadau cyn gwneud cais ac ar ôl gwneud cais yn berthnasol yn Rhan 4. Nid ydym yn rhagweld unrhyw ddryswch yn ymarferol ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 12:**

Bwriad defnyddio'r term "sylwadau ysgrifenedig" yn rheoliadau 60 a 67 oedd cyfeirio at y weithdrefn y mae cais i'w archwilio drwyddi (o ran hynny gweler adran 42(2) o Ddeddf 2024). Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai wedi bod yn gliriach defnyddio'r term "sylwadau mewn ysgrifen". Nid ydym yn rhagweld unrhyw ddryswch yn ymarferol ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 13:**

Mae'r term "sylwadau pellach" yn derm ambarél i gwmpasu unrhyw sylwadau llafar neu ysgrifenedig a ddaw i law ar ôl y sylwadau ysgrifenedig cychwynnol. Gallai'r sylwadau ysgrifenedig ychwanegol fod yn "sylwadau ysgrifenedig pellach" neu yn sylwadau ysgrifenedig a ddaw i law heblaw o dan reoliad 40 (gweler er enghraifft reoliadau 52(10) a 67). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn glir yn ymarferol fod y term yn derm ambarél ond bydd yn parhau i adolygu hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 14:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r anghysondeb ieithyddol ac am nodi y gellid bod wedi drafftio rheoliad 36(7) yn gliriach. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld unrhyw ddryswch yn ymarferol pan fydd rheoliad 36 yn cael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 15:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r anghysondebau ieithyddol. Ystyrir diwygiadau pan fydd y Rheoliadau yn cael eu diwygio nesaf.

**Pwynt Craffu Technegol 17:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y term “rheilffordd” wedi ei ddefnyddio heb ei ddiffinio yn yr un cyd-destun ag ym mharagraff (b) o’r Tabl yn yr Atodlen yn y canlynol:

- paragraff (e) o’r Tabl yn Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012; a

- paragraff (b) o’r Tabl yn yr Atodlen i Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a’r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025 (“y Rheoliadau Ceisiadau”).

Mae’r geiriad ym mharagraff (b) o’r Tabl yn yr Atodlen wedi gweithredu’n ymarferol ers o leiaf 2012 ac felly nid yw Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen diffiniad.

Bwriedir i’r termau “rhwydwaith” a “gweithredwr” ym mharagraff (q) o’r Tabl yn yr Atodlen fod â’r un ystyr ag a roddir yn Neddf Rheilffyrdd 1993. Defnyddiwyd yr un geiriad yn y Tabl yn yr Atodlen i’r Rheoliadau Ceisiadau. Nid ydym yn rhagweld unrhyw ddryswch yn ymarferol ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.